# 10. YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

## Ffeithiau Allweddol

| |
|---|
| Mae 71.8% o boblogaeth yr AHNE yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r lefelau ar draws Cymru gyfan. |
| Gwelwyd gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r AHNE yng nghyfrifiad 2011 (lawr o 72.3% yn 2001) |

## 10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan greiddiol o Benrhyn Llŷn. Dyma iaith lafar yr ardal ar hyd y canrifoedd, iaith addysg a chrefydd. Dengys Cyfrifiad 2011 fod 71.8% o boblogaeth cymunedau'r AHNE yn gallu siarad yr iaith, ac mae hyn yn parhau gyda'r uchaf drwy Gymru. Mae llawer iawn o bolisïau, strategaethau a chynlluniau mewn lle i gynnal y Gymraeg a'i chryfhau ar gyfer y dyfodol - yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru (megis strategaeth Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-17), ac hefyd ar lefel sirol.

10.1.2 Yma yng Ngwynedd, mae'r corff Hunaniaith yn parhau i weithredu fel Menter Iaith yn y sir, ac yn gweithio law yn llaw â Chyngor Gwynedd, ac mewn partneriaeth gyda nifer o gyrff eraill gyda'r nod o gryfhau'r Gymraeg fel iaith ar yr aelwyd, yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y gweithle. Lansiwyd Strategaeth Iaith Gwynedd (2014-17) yn Nhachwedd 2014 a'r darged yw: *"sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021".*

10.1.3 Mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lleol yn gwneud llawer i gynnal yr iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor ac mae'r corff wedi ymrwymo i Safonau'r Iaith Gymraeg a osodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 4A Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Polisi Iaith Gymraeg Gwynedd 2016 yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith a nodwyd uchod.

10.1.4 Mae gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd bolisi iaith blaengar hefyd sydd yn gymorth mawr i sicrhau fod plant di-Gymraeg yn cael eu cymhathu i'r gymuned leol. Datblygwyd cynlluniau arloesol dros y blynyddoedd diweddar, megis Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, sy'n hyrwyddo ac annog defnydd plant o'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

10.1.5 Law yn llaw â'r iaith, mae diwylliant arbennig Llŷn yn rhan greiddiol o fywyd yma - yn gyfuniad cyfoethog o hanesion, chwedlau, ofergoelion, dywediadau a chymeriadau. Mae'n cynnwys hefyd enwau tai, ffermydd, caeau a'r holl nodweddion hanesyddol ac olion diwylliannol ac ati sydd i'w gweld ledled y Penrhyn. Yn ogystal mae dylanwadau hanesyddol – megis cysylltiad yr ardal â sefydlu Plaid Cymru, gwerthoedd, agweddau, credoau ac ofergoelion hefyd yn rhan o'r diwylliant hwn.

10.1.6 Ceir gwybodaeth fanwl ar wahanol agweddau o’r diwylliant mewn llyfrau hanes lleol, llenyddiaeth a barddoniaeth ac ar gof y trigolion lleol.

10.1.7 At bwrpas Cynllun Rheoli’r AHNE gosodwyd yr isod fel Prif Nod o ran Iaith a Diwylliant:

**Prif Nod**

| |
|---|
| **CYNNAL, GWARCHOD A HYRWYDDO DIWYLLIANT UNIGRYW LLŶN A’R IAITH GYMRAEG.** |

**<u>Nodweddion Arbennig</u>**

**10.2 Yr Iaith Gymraeg**

10.2.1 Hyd at ganol y ganrif ddiwethaf roedd bron yr holl boblogaeth yn siarad y Gymraeg fel iaith gyntaf ac roedd llawer na allai siarad unrhyw Saesneg o gwbl. Dyma yw prif iaith Penrhyn Llŷn ac fe’i defnyddir hi yn ddyddiol yn y cartref, yr ysgol, y siop, yn y mannau gwaith ac ar y stryd. Hefyd mae’r iaith yn weledol ym mhob man, ar arwyddion a phosteri. Mae papur bro “Llanw Llŷn” yn parhau i gael ei gyhoeddi yn uniaith Gymraeg bob mis.

10.7.2 Enwau Cymraeg sydd ar leoliadau yn Llŷn, er bod enghreifftiau o enwau Saesneg yn cael eu creu a’u defnyddio ar wahanol leoliadau sy’n boblogaidd ymysg ymwelwyr fel Porthor (Whistling Sands) a Phorth Neigwl (Hell’s Mouth).

10.2.3 Mae enwau Cymraeg safleoedd a nodweddion hanesyddol yn dal eu tir, ac hefyd caeau amaethyddol a gwelwyd cyfoeth o enwau diddorol yn cael eu hamlygu mewn prosiectau diweddar megis Prosiect Cynefin a gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar ran Gwasanaeth AHNE Llŷn. Mae’r enwau hyn yn ddrych o’r gorffennol i ni ac yn gallu dweud llawer am bobl a chymdeithas.

10.2.4 Cymraeg yw iaith llenyddiaeth leol a chymdeithasau lleol hefyd gan fwyaf. Un peth sydd yn arwydd o gyflwr y Gymraeg sydd ddim yn cael ei ddangos gan ffigyrau moel yw’r nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy’n uniaith Gymraeg yn Llŷn. Mae hyn yn dangos cryfder yr iaith yn yr ardal. Nid oes gwybodaeth fanwl am ddigwyddiadau uniaith Gymraeg yn lleol ond dyma’r prif rai:

- Cyfarfodydd Cyngor Sir (gyda chyfieithu ar y pryd os oes angen)
- Cyfarfodydd Cyngor Cymuned
- Cyfarfodydd Llywodraethwyr a Rhieni ysgolion
- Nosweithiau adloniant Cymraeg
- Cylch Llenyddol Llŷn
- Merched y Wawr
- Yr Urdd
- Clybiau Ffermwyr Ieuanc
- Clybiau hanes, llenyddiaeth a chymdeithasol lleol
- Eisteddfodau lleol

- Oedfaon ac Ysgolion Sul yn y capeli a rhai Eglwysi.

10.2.5 Gwelwyd gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r AHNE yng nghyfrifiad 2011 (71.8% o'i gymharu â 72.3% yn 2001). Bydd angen sicrhau yn y dyfodol fod cefnogaeth i'w gwarchod a'i chryfhau fel bod yr iaith a'r diwylliant yn parhau yn greiddiol yn ein cymunedau.

**10.3 Diwylliant**10.3.1 **Crefydd** - chwaraeodd crefydd rhan bwysig yn niwylliant Llŷn dros y canrifoedd. O gyfnod Cristnogaeth gynnar, oes y seintiau, teithiau'r pererinion i Enlli a'r eglwysi ac un ddiweddarach i gyfnodau Protestaniaeth, Piwritaniaeth, Methodistiaeth ac yn y blaen.

10.3.2 Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu chwyldro crefyddol mawr a bu cynnydd aruthrol mewn cynulleidfaoedd ac adeiladwyd capeli ar raddfa fawr. Y Methodistiaid Calfinaidd neu'r Hen Gorff, a ddatblygodd gyflymaf ac erbyn canol y ganrif roedd ganddynt gymaint o gapeli â'r cyrff anghydffurfiol eraill, sef yr Eglwys Anglicanaidd, Annibynwyr, y Wesleaid a'r Bedyddwyr, gyda'i gilydd. Yn fuan iawn roedd capeli ym mhob pentref, rhai mewn ardaloedd digon gwledig ac eraill yn y prif drefi a phentrefi megis Nefyn, Aberdaron a Threfor ble roedd nifer o gapeli gan wahanol enwadau.

10.3.3 Mae crefydd wedi parhau'n bwysig ym mywyd diwylliannol yr ardal hyd heddiw er bu edwino sylweddol mewn cyfarfodydd a chynulleidfaoedd ers canol yr ugeinfed ganrif.

10.3.4 Bellach, mae nifer helaeth o eglwysi a chapeli i'w gweld ledled y Penrhyn. Mae nifer fawr wedi cau, rhai wedi eu troi yn dai, fflatiau, gweithdai neu at rhyw ddefnydd arall. Er hyn, maent yn adlais a chofnod o gyfnodau diddorol a phwysig yn ein diwylliant yn ogystal â nodweddion pwysig yn ein hamgylchedd hanesyddol.

10.3.5 **Celf a Llên** Mae Llŷn wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer iawn o feirdd ac arlunwyr nodedig dros y canrifoedd. Ymysg enwau amlwg mae Cynan a J. Glyn Davies, T.Rowland Hughes a Meirion MacIntyre Huws.

10.3.6 O ran rhyddiaith mae enghreifftiau o sawl awdur lleol amlwg gyda llawer o'u gweithiau yn dathlu hanes, diwylliant a harddwch arbennig yr ardal. Ceir nofelau hanesyddol hefyd yn ystod y blynyddoedd sydd wedi bod yn ddrych o'n cymdeithas mewn cyfnodau penodol dros y canrifoedd.

10.3.7 Ceir nifer o arlunwyr hefyd sy'n parhau i gael eu dylanwadu gan harddwch a nodweddion arbennig yr ardal. Arddangosir gweithiau yn Oriel Plas Glyn y Weddw ac yn Oriel Tonnau, Pwllheli. Ceir arddangosfa flynyddol hefyd o waith y grŵp lleol, Arlunwyr Sarn. Roedd arddangosfa 2016 wedi ei seilio ar gerdd enwog Meirion MacIntyre Huws, Penrhyn Llŷn.

10.3.8 **Eisteddfodau -** Mae Eisteddfodau yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyfan ac yn rhinwedd arbennig ac unigryw i'r genedl. Yn Llŷn, mae nifer o gapeli, eglwysi ac ysgolion yn ogystal â chlybiau'r Ffermwyr Ifanc a'r Urdd yn cynnal Eisteddfodau.

10.3.9 Ymysg Eisteddfodau yn yr AHNE ei hun, mae Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn a gynhelir bob mis Tachwedd, ac Eisteddfod Flynyddol Uwchmynydd MC sy'n digwydd ar ddydd Llun y Pasg.

10.3.10 **Llên gwerin -** Mae llên gwerin yr ardal yn llawn o ofergoelion am y tylwyth teg, bwganod, dewiniaid a gwrachod, ac enwid rhai o nodweddion lleol ar ôl y coelion hyn megis Cae'r Bwgan (ym Mhwlldefaid, Aberdaron) a'r Goeden Bechod (ger Ty'n y Coed, Nefyn). Hefyd, ceir nifer o chwedlau sy'n amlwg yn niwylliant Cymru yn hanu o Lŷn megis chwedl Castellmarch a hanes Rhys a Meinir sydd wedi ei lleoli yn Nant Gwrtheyrn. Mae cysylltiad rhwng yr ardal hefyd â cheinciau'r Mabinogi.

10.3.11 Fel pob ardal mae gan Lŷn hefyd ei chymeriadau ac mae ymwybyddiaeth am y rhai amlycaf wedi goroesi hyd heddiw. Mae Dic Aberdaron yn gymeriad hanesyddol oedd yn siarad hyd at bymtheg o ieithoedd yn ôl y sôn. Mae cyfeiriadau tuag ato mewn llenyddiaeth a barddoniaeth. Roedd Thomas Love Duncome Jones Parry, Madryn yn gymeriad lliwgar sydd wedi gadael ei farc.

10.3.12 Fel llawer man arall mae sôn am gysylltiad rhwng Y Brenin Arthur ag Ynys Enlli a Llŷn. Mae Chris Barber (1993) yn gwneud cais cryf yn ei lyfr 'Journey to Avalon' mai ym Mhorth Cadlan ger Aberdaron y bu Brwydr Camlan ac Enlli oedd Ynys Afallon.

10.3.13 Mae Ynys Enlli ei hun yn leoliad amlwg a phwysig o fewn ein diwylliant, gyda chefndir a thraddodiad sanctaidd cryf iawn. Mae'n debyg y sefydlwyd yn fynachlog gyntaf ar yr ynys rhwng 516 a 542 OC. Cadfan oedd yr Abad cyntaf ac fe'i dilynwyd ef gan Lleuddad a gafodd ddylanwad mawr ar Enlli a rhannau o Lŷn. Ymysg y Seintiau y dywedir iddynt gael eu claddu ar yr ynys mae Dyfrig, Deiniol, Trillo, Padarn, Mael a Maugant ac yn ôl traddodiad mae 20,000 o saint wedi eu claddu yno. Oherwydd statws crefyddol arbennig yr ynys datblygodd yn ganolfan pererindod enwog iawn.

10.3.14 **Ffordd o Fyw** - Mae ffermio wedi bod yn ddiwydiant a ffordd o fyw yn Llŷn ers canrifoedd gan gynnal unigolion, teuluoedd, gweision ac uchelwyr. Mae yna fyrdd o arferion, straeon, dywediadau a chymeriadau yn gysylltiedig â ffermio yn yr ardal. Hefyd mae ffermio wedi chwarae rhan bwysig iawn o ran cynnal pobol, cymunedau a diwylliant Llŷn gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Er y newidiadau mawr sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o ffermydd cymysg teuluol yn parhau a dilyniant o'r tad i'r mab yn gyffredin. Yn ddiweddar gwelwyd bri unwaith eto ar hen draddodiadau ac mewn digwyddiadau megis Ras Aredig Sarn a'r Cylch a threialon cŵn defaid.

10.3.15 Mae trigolion Llŷn hefyd wedi pysgota a chewylla ers cyn cof. Datblygodd Nefyn a Phorthdinllaen yn borthladdoedd penwaig pwysig yn y 18fed ganrif ac mae'r penwaig ar arfbais Nefyn hyd heddiw. Mae rhai pysgotwyr llawn amser yn Llŷn heddiw yn bennaf allan o Borth Meudwy, Porthdinllaen a Nefyn ac mae cimychiaid a chrancod yn parhau yn gynnyrch lleol pwysig.

10.3.16 Erbyn heddiw porthladdoedd pleser yn bennaf yw rhai Llŷn ac mae hanes lliwgar a bywiog y gorffennol yn atgof pell. Mae amryw o hanesion a cherddi i'w gael am ddylanwad cryf mae'r môr wedi ei gael ar yr ardal. Ceir hefyd stôr o wybodaeth ac arddangosfeydd diddorol yn Amgueddfa Forwrol Llŷn yn Nefyn.

10.3.17 **Chwareli a chloddio mwynau** – Mae'r chwareli ithfaen a'r mwynfeydd amrywiol yn Llŷn hefyd wedi cyfrannu yn fawr at ein diwylliant ac mae eu olion yn amlwg ac yn rhan annatod o hunaniaith yr ardal. Yn sgil y galw am gerrig ithfaen yn yr 19eg Ganrif, datblygwyd nifer o chwareli ar fryniau igneaidd yn Llŷn. Roedd gwaith i bobol leol yn y chwareli ond hefyd daeth chwarelwyr o ardaloedd eraill a bu i rai o'r bobol yma gartrefu yn Llŷn a dod yn rhan o'r gymdeithas yma.

10.3.18 Dechreuodd gwaith manganîs yn Rhiw yn 1827 ac erbyn 1840 roedd 50 yn gweithio yno. Bu gweithio prysur yn Rhiw yn ystod y ddau ryfel byd ac amcangyfrif fod 196,770 tunnell wedi ei gynhyrchu yno rhwng 1894 a 1945. Bu cloddio hefyd am blwm yn ardal Llanengan a Bwlchtocyn ac mae'r corn uchel a welir ynghanol y pentref yn dyst i'r gwaith a fu. Eto daeth mwynwyr o ardaloedd eraill i weithio yn y gweithfeydd hyn ag ymsefydlu yn Llŷn a dyma yw'r rheswm dros rai o'r cyfenwau dieithr sydd i'w gweld ar restrau cyfrifiad yn yr 19eg Ganrif yn yr ardal hon.

10.3.19 Er mwyn gwasanaethu'r diwydiannau cerrig a mwyn datblygwyd glanfeydd megis ar gyfer allforio cerrig ithfaen yn Nhrefor, Porth y Nant a Charreg y Llam ac ym Mhorth Neigwl a Phorth Ysgo ar gyfer llongau oedd yn cario manganîs o ardal y Rhiw. Mae olion rhai o'r strwythurau hyn i'w gweld hyd heddiw.

10.3.20 Dros y canrifoedd felly, mae ein hiaith a'n diwylliant diddorol a chyfoethog wedi ffynnu law yn llaw ac maent yn cyfrannu yn fawr at gymeriad yr AHNE a ffordd o fyw ein cymunedau hyd heddiw.

## <u>Materion Allweddol</u>

### 10.4 Allfudo Pobl Ifanc

10.4.1 Un o'r prif bynciau llosg o ran yr effaith ar iaith a diwylliant Llŷn yw'r tueddiad ymysg nifer o bobl ifanc i fudo o'r ardal. Mae hyn am nifer o resymau gwahanol megis diffyg cyfleon gwaith addas, gadael i astudio cyrsiau addysg bellach ac hefyd yr apêl i brofi bywyd mewn trefi a dinasoedd. Os oes dymuniad gan bobl leol i fyw a gweithio yn yr ardal, mae'n bwysig ceisio sicrhau fod cyfleoedd ar gael iddynt ac amrywiaeth o swyddi a chyrsiau amrywiol ac addas. Mae'n bwysig hefyd codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc am fanteision byw yn lleol.

### 10.5 Mudo i'r Ardal

10.5.1 Ceir nifer o deuluoedd o ardaloedd eraill yn penderfynu symud i Lŷn. Mae pobol yn ymddeol a dod i Lŷn i fyw hefyd - mae astudiaethau yn dangos fod y bobl yma yn aml wedi treulio gwyliau yn yr ardal neu yn berchen ar dŷ haf yma. Mae hyn yn effaith nid yn unig yn ieithyddol, ond hefyd yn effaith ar ddiwylliant neu hanes lleol hefyd. Dylid sicrhau fod mentrau ar gael i fewnfudwyr chwarae rhan yn y gymuned, bod yn ymwybodol o'r hanes a'r diwylliant a'u pwysigrwydd, a dysgu'r Gymraeg.

### 10.6 Twristiaeth

10.6.1 Er bod twristiaeth i'w groesawu i'r ardal, mae astudiaethau yn y gorffennol wedi dangos fod cysylltiad rhwng twristiaeth, mewnfudo i'r ardal a gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Buasai mentrau i gyfyngu effaith niweidiol twristiaeth ar yr iaith a'r diwylliant a chodi ymwybyddiaeth o fudd.

### 10.7 Atyniadau Modern

10.7.1 Bellach mae llawer o wahanol gyfleon hamdden a chwaraeon ar gael gan olygu fod llai o fynd i'r capeli a'r eglwysi a bod rhai o'r hen arferion yn mynd yn angof. Mae angen rhagor o fentrau sy'n cryfhau apêl hanes a diwylliant cynhenid yr ardal, a hynny i drigolion ac ymwelwyr. Buasai o fudd rhoi mwy o gefnogaeth i weithgareddau traddodiadol megis y treialon cŵn defaid a'r Ras Aredig flynyddol.

### 10.8 Y Cyfryngau

10.8.1 Mae ffilmiau, rhaglenni teledu amrywiol a'r we fyd eang yn dylanwadu'n fawr ar ddiddordebau plant, pobol ifanc ac oedolion. Mae cyfle yma i ddatblygu mentrau i gyfleu hanes a diwylliant lleol mewn modd atyniadol a chynnig cefnogaeth i weithgareddau Cymraeg a Chymreig. Mae cyfle hefyd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

**Nifer o siaradwyr Cymraeg, Cymunedau'r AHNE (%)**

| Cymuned | 1981 | 1991 | 2001 | 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 89.5 | 77.1 | 76.6 | 74.2 |
| Botwnnog | 85.5 | 81.5 | 78.3 | 75.9 |
| Buan | 82.1 | 75.1 | 74.1 | 74.3 |
| Clynnog | 80.3 | 72.6 | 69.3 | 73.2 |
| Llanaelhaearn | 90.9 | 83.4 | 81.1 | 73.8 |
| Llanbedrog | 73.2 | 53.5 | 55.6 | 54 |
| Llanengan | 71.5 | 63.0 | 59.8 | 63.4 |
| Nefyn | 84.5 | 77.8 | 78.6 | 76.1 |
| Pistyll | 85.7 | 78.0 | 74.9 | - |
| Tudweiliog | 86.4 | 84.9 | 75.0 | 73.9 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Morfa Nefyn | | | | 72 |

## Polisïau

**IP 1.** **CEFNOGI GWEITHGAREDDAU ADLONIADOL A DIWYLLIANNOL YN YR IAITH GYMRAEG.**

Ceir nifer o weithgareddau yn yr ardal yn amrywio o Eisteddfodau, sgyrsiau a darlithoedd i dreialon cŵn defaid ac ati. Maent oll yn ddigwyddiadau pwysig o ran cynnal a hyrwyddo'r diwylliant a'r iaith Gymraeg ac yn werthfawr o ran lles cymdeithasol trigolion yr ardal. Yn ddiweddar gwelwyd enghreifftiau da o gymunedau y ailafael mewn digwyddiadau traddodiadol oedd wedi edwino megis dathlu Gŵyl Ifan. Oherwydd eu pwysigrwydd o ran cynnal diwylliant a hanes bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid yn cefnogi gweithgareddau o'r fath trwy wahanol ffyrdd ac yn codi ymwybyddiaeth amdanynt.

**IP 2.** **HYRWYDDO DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YMYSG BUSNESAU A SEFYDLIADAU YN LLŶN.**

Er fod llawer o fusnesau a chwmnïau lleol yn defnyddio'r Gymraeg, credir fod cyfle i annog eraill i roi mwy o sylw a blaenoriaeth i'r Gymraeg o ran arwyddion, hysbysebion, safleoedd gwe ac ymysg staff. Mae hyrwyddo ac annog busnesau a sefydliadau'r ardal i ddefnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig er mwyn ei pharhad fel prif iaith yr ardal a chynnal cymeriad Cymreig yr ardal. Hefyd, bydd ei hyrwyddo ymysg ymwelwyr i'r ardal yn amlygu ein diwylliant a'n treftadaeth arbennig.

**IP 3.** **CODI YMWYBYDDIAETH AM ELFENNAU O DDIWYLLIANT ARBENNIG YR ARDAL.**

Nid mewn llyfrau yn unig mae cofnod o'n diwylliant, mae lluniau, ffotograffau, ffilmiau ac atgofion o bob math hefyd yn bwysig. Bydd Gwasanaeth AHNE Llŷn a phartneriaid eraill fel Amgueddfa Forwrol Llŷn, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Oriel Plas Glyn y Weddw yn cefnogi mentrau i gofnodi ein diwylliant unigryw a'i rannu ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**IP 4.** **DATHLU DIWYLLIANT A THRADDODIADAU'R ARDAL TRWY GELF, LLENYDDIAETH A BARDDONIAETH.**

Yn ogystal â chofnodi agweddau o'n hanes, diwylliant a thraddodiadau mae'n bwysig eu dathlu trwy gelf, llenyddiaeth a barddoniaeth. Mae llawer yn digwydd ar hyn o bryd - yn amrywio o'r Eisteddfodau lleol i ŵyliau celf, arddangosfeydd a chystadlaethau. Mae Gwasanaeth AHNE Llŷn, Cyngor Gwynedd a phartneriaid eraill yn awyddus i weld ffyniant gweithgareddau o'r fath ac am eu cefnogi trwy wahanol ddulliau yn cynnwys cefnogaeth ariannol os bydd cyllid ar gael.

**IP 5.** **CODI YMWYBYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG A'R CYFLEON I'W DYSGU.**

Llŷn yw un o'r ardaloedd gyda'r canran mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae'r iaith yn rhan greiddiol o gymeriad yr ardal. Felly, yn ogystal â chefnogi gweithgareddau ymysg siaradwyr presennol mae'n bwysig sicrhau cyfleon i ddysgu Cymraeg a dysgu am ein diwylliant i bobl sydd unai yn ymweld â'r ardal neu yn mudo yma.

Ceir amryw o gyfleoedd megis trwy cyrsiau coleg addysg bellach, cyrsiau Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn a mentrau lleol. Anelir i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd hynny drwy wahanol ddulliau fel hysbysebion, sesiynau blasu, erthyglau mewn cylchgronau, dyddiau agored ac ati.